



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**10 HYDREF 2018**

**RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL CYMRU**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y  
CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH Â'R AELOD  
PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS**

**Awduron:** Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111)  
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

**1. DIBEN YR ADRODDIAD**

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am y [Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#) a gafodd ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018 (Atodiad 1), a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â hyn.

**2. ARGYMHELLION**

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Cytuno i argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu'r enwau lleoedd sy'n berthnasol i Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gafodd eu cyhoeddi yn Rhestr Comisiynydd y Gymraeg o Enwau Lleoedd Safonol Cymru;
- 2.3 Gan ddibynnu ar gymeradwyaeth y Cabinet, gofyn i swyddogion roi'r enwau lleoedd safonol Cymru ar waith wrth weinyddu busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar y cyd â Pholisi a Gweithdrefnau Diwygiedig ar gyfer Enwi Strydoedd a Rhifo Tai a gafodd ei gymeradwyo ym mis Tachwedd 2015.
- 2.4 Cytuno bod swyddogion yn parhau i gydweithio â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar unrhyw argymhellion sy'n cael eu cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

### **3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

- 3.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am roi cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru i unigolion a sefydliadau o bob math. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu ffurflenni safonol ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus, arwyddion, mapiau a pheiriannau chwilio ar-lein.
- 3.2 Er mai Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu ar y ffurfiau maen nhw'n eu defnyddio, nod y Comisiynydd yw sicrhau cysondeb a chywirdeb o ran orgraff ledled Cymru. Mae Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru wedi ei pharatoi gan y Comisiynydd i gefnogi hyn.
- 3.3 Ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Gorffennaf gan dynnu sylw at y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, a gafodd ei chyhoeddi ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd wedi nodi y byddai'n dymuno i'r Cyngor fabwysiadu'r rhestr yma.
- 3.4 Gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am arwyddion ar briffyrdd a thraffyrdd, mae'n bwysig bod Awdurdodau Lleol yn cytuno ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru er mwyn osgoi dryswch.

### **4. CEFNDIR**

- 4.1 Yn dilyn ymgyrchoedd yn y 60au, cafodd adroddiad ei gomisiynu ar arwyddion ffyrdd dwyieithog. Ym mis Awst 1972, cafodd adroddiad Arwyddion Ffordd Ddwyieithog ei gyhoeddi gan Bwyllgor Swyddogol a gafodd ei greu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd. O ganlyniad i'r adroddiad, derbyniodd Llywodraeth y DU argymhelliad y Pwyllgor i godi arwyddion ffyrdd dwyieithog yng Nghymru, gan gytuno i sefydlu gweithdrefn benodol er mwyn penderfynu ar faterion sy'n ymwneud ag enwau lleoedd.
- 4.2 Cafodd system ei sefydlu yn y Swyddfa Gymreig i gynghori Awdurdodau Lleol, Swyddfa'r Post, yr Arolwg Ordnans a sefydliadau eraill ar ffurfiau enwau lleoedd safonol yn y Gymraeg. Cafodd pwyllgor parhaol ei sefydlu i fynd i'r afael â'r mater yma, sef y Pwyllgor Ymgynghori ar Enwau Lleoedd.
- 4.3 Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu ym 1999. Etifeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y bu, y Pwyllgor Ymgynghori ar Enwau Lleoedd o'r Swyddfa Gymreig. Ym mis Hydref 2001, penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i drosglwyddo gwaith y Pwyllgor i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Felly, cyfrifoldeb y Bwrdd oedd sicrhau bod cyngor arbenigol, dibynadwy ar ffurfiau cywir enwau lleoedd Cymru yn dal i fod ar gael i'r rheiny a oedd ei angen.

- 4.4 Sefydlodd y Bwrdd Dîm Safoni Enwau Lleoedd, a'i nod oedd cynnig cyngor ar ffurfiau enwau lleoedd yng Nghymru a materion eraill sy'n gysylltiedig ag enwau lleoedd.
- 4.5 Pan gafodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei ddiddymu, cafodd y cyfrifoldeb am enwau lleoedd ei drosglwyddo i Gomisiynydd y Gymraeg, ac mae ei Swyddfa'n parhau â'r gwaith yma drwy'r Panel Safoni Enwau Lleoedd. Mae'r trefniant yma'n cael ei gydnabod yn fras yn strategaeth y Gymraeg 2012-2017 'Iaith fyw: iaith byw' Llywodraeth Cymru (t.49), ac yn ei rhaglen waith ar gyfer 'Cymraeg 2050', sef ei gweledigaeth ar gyfer cyrraedd y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg (t.37).
- 4.6 Roedd y Panel Safoni Enwau Lleoedd yn ystyried ystyr, hanes a tharddiad enwau'r lleoedd, yn ogystal â'u defnydd presennol. Roedd y Panel hefyd yn dilyn canllawiau penodol i lunio ei argymhellion. Roedd y Panel yn cynnwys (ac yn parhau i gynnwys) Dr Dylan Foster Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd; Gareth A. Bevan, cyn-ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor ac ymgynghorydd i'r Arolwg Ordnans; Yr Athro David Thorne (Cadeirydd), cyn Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan; Dr G. Angharad Fychan, Uwch-olygydd Geiriadur Prifysgol Cymru, Ysgrifennydd ac un o sylfaenwyr Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru; Yr Athro Emeritws Hywel Wyn Owen, cyn-gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Enwau Lleoedd, Prifysgol Bangor.
- 4.7 Mae hyn wedi sicrhau bod pob argymhelliad gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi'i wneud ar sail ysgolheigaidd gadarn.
- 4.8 Mae'r mwyafrif o'r enwau lleoedd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sydd ar y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru yn gyson â'r defnydd presennol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ychydig o awgrymiadau yn ddadleuol. Mae'r enwau sy'n ymwneud yn benodol â Rhondda Cynon Taf i'w gweld yn Atodiad 2.

## **5. SEFYLLFA BRESENNOL**

- 5.1 Ar hyn o bryd mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cadw Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) ddwyieithog. Mae'r LLPG yn caniatáu i adrannau fel Cynllunio, Priffyrdd a Chludiant ddefnyddio dull cyson wrth ymdrin ag enwau lleoedd wrth iddyn nhw gyflawni'u dyletswyddau priodol.
- 5.2. Yn ogystal â hyn, yn 2015, cymeradwyodd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg bolisi diwygiedig ar gyfer Enwi a Rhifo Strydoedd sy'n cynnwys gofynion Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (2015). Mae'r polisi diwygiedig yma yn nodi y dylid enwi a rhifo datblygiadau newydd a ffyrdd, lonydd neu strydoedd heb eu henwi sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg yn unig, a dylai enwau newydd ar strydoedd fod yn ddwyieithog, naill ai drwy ychwanegu rhagddodiad/ôl-ddodiad perthnasol a/neu, mewn achosion pan fo prif elfen enw'r stryd yn Saesneg, rhoi cyfieithiad addas.

- 5.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn rhoi gwybod i'r holl gyrrff gofynnol statudol, gan gynnwys yr Arolwg Ordnans, am unrhyw enwau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio. Mae'r wybodaeth yma, yn ei thro, yn cael ei bydo i'r System Gwybodaeth Ddaearyddol/LLPG.
- 5.4 Mae'r mwyafrif o'r enwau lleoedd y mae Comisiynydd y Gymraeg yn eu hawgrymu yn gyson â'r LLPG presennol ar gyfer RhCT. Fodd bynnag, mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymhell bod y Cyngor yn mabwysiadu fersiwn uniaith o Lanhari, Treorci a Chwmdâr, gyda'r nod o roi'r gorau i ddefnyddio 'Llanharry', 'Treorchy' ac 'Cwmdare' (yn y Saesneg). Efallai bydd argymhellion pellach yn cael eu cynnig yn y dyfodol ac os felly, bydd papur pellach yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Llywio.

## **6. CAMAU NESAF**

- 6.1 Os yw Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn penderfynu mabwysiadu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, bydd swyddogion o'r adrannau perthnasol yn mynd ati i'w gweithredu.
- 6.2 Bydd swyddogion hefyd yn cydweithio ymhellach â Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod y Rhestr yn adlewyrchu'r defnydd presennol o unrhyw enwau lleoedd penodol.
- 6.3 Yn ogystal â hyn, bydd angen cydweithio ag Awdurdodau Lleol cyfagos er mwyn sicrhau cysondeb, yn arbennig o ran yr hyn sy'n ymddangos ar arwyddion ffyrdd.

## **7. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

- 7.1 Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## **8. YMGYNGHORI**

- 8.1 Mae Cynghorwyr lleol wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r newidiadau arfaethedig ac wedi derbyn gwahoddiad i gyflwyno sylwadau cyn dod i benderfyniad terfynol.

## **9. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL**

- 9.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, fe fydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

## **10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

- 10.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rheoleiddio'r maes gwaith yma.

## **11. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

- 11.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ogystal â Strategaethau mewn perthynas â'r laith Gymraeg a gafodd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.
- 11.2 Mae'r pwnc sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad yma yn arbennig o berthnasol i nod rhif saith o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) - sef Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ei nod yw sicrhau bod gyda'r Gymraeg statws cyfartal i'r Saesneg yng Nghymru. Ei nod hefyd yw gwarchod treftadaeth Cymru trwy sicrhau bod enwau lleoedd Cymru yn cael eu cadw.
- 11.3 Mae Rhestr Comisiynydd y Gymraeg o Enwau Lleoedd Safonol Cymru yn gyson â'r pum ffordd o weithio gan y bydd yn cael ei gweithredu ledled Cymru dros nifer o flynyddoedd. Mae gwahanol sefydliadau wedi cydweithio arni ac mae ystod o ysgolheigion a Swyddogion y Cyngor wedi cysylltu â swyddfa'r Comisiynydd ac wedi sicrhau bod modd i'r Comisiynydd weld LLPG y Cyngor. Os caiff ei gweithredu, bydd yn atal dryswch trwy sicrhau defnydd cyson o enwau lleoedd ar draws holl ardaloedd Cymru gan ystod eang o gyrff, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Lle mae achosion o ddadlau dros enwau, mae modd cynnal ymgynghoriad ehangach ag Aelodau Etholedig a/neu breswylwyr.

## **12. CASGLIAD**

- 12.1 Er mwyn cynnal cysondeb o ran orgraff a chywirdeb ledled Cymru, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru) fabwysiadu Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru. Mae'r Comisiynydd yn pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu ffurfiau safonol ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus, arwyddion, mapiau a pheiriannau chwilio ar-lein.
- 12.2 Mae'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru yn adnodd byw a fydd yn parhau i dyfu a datblygu, ac mae Comisiynydd y Gymraeg yn dymuno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf barhau i gydweithio yn y maes yma.